# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3

## Cofnodion (LC3(3)-17-09)

**Dyddiad: 12 Tachwedd 2009**
**Amser: 1.30 - 2.30pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Peter Black AC, Gorllewin De Cymru
William Graham AC, Dwyrain De Cymru
Janice Gregory AC, Ogwr
Dai Lloyd AC, Gorllewin De Cymru

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Fay Bowen, Clerc
Ruth Hatton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Gwyn Griffiths, Cynghorwr Cyfreithiol
Carys Jones, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Tystion

Dylan Morgan, Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Polisi, NFU Cymru
Ed Rees, Cadeirydd Bwrdd Da Byw NFU Cymru;
Stephen Williams, y Gymdeithas Arwerthwyr Da Byw;
Elin Jones AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur Arfaethedig a'r Gweinidog dros Faterion Gwledig;
Neil Howard, Pennaeth Rheoli Cynllun, Llywodraeth Cynulliad Cymru; a
Dorian Brunt, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Christine Chapman AC a Helen Mary Jones AC.

### Eitem 2: Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru) Cyfnod 1 - Sesiwn dystiolaeth 2

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dylan Morgan, Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Polisi NFU Cymru; Ed Rees, Cadeirydd Bwrdd Da Byw NFU Cymru; a Stephen Williams, y Gymdeithas Arwerthwyr Da Byw.

2.2 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Elin Jones AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur Arfaethedig a'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, drwy gyswllt fideo o Landudno.

### Camau i'w cymryd:

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o eglurhad mewn perthynas ag adrannau 10 ac 11 o'r Mesur Arfaethedig, yn nhermau'r pwerau a fyddai'n cael eu defnyddio i ddiwygio'r cyfrifiad o daliad lefi. Er enghraifft, pe bai pwynt casglu'n cael ei newid h.y. i ffermydd. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a fyddai newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud drwy ddiwygiadau i Atodlen 2 ac a fyddai'r newidiadau hynny'n destun y weithdrefn gadarnhaol.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am eglurhad mewn perthynas ag adran 12(7), o ran pam nad oes cyfeiriad penodol at bartneriaethau Gogledd Iwerddon.